Tasg 4 > Treiglo'n feddal ar ol 'ei' gwrywaidd

Darllenwch y frawddeg ganlynol o'r trac sain:

Mae'n braf cael eistedd wrth ymyl rhywun sydd wedi cael **ei alw** yn Kyffin Williams newydd.

Pan fyddwch chi'n disgrifio neu'n siarad am ddyn, mae 'ei' (his) yn achosi treiglad meddal.

Dyma'r treiglad meddal:

C	**G**
P	**B**
T	**D**
G	**(g yn diflannu)**
B	**F**
D	**DD**
LL	**L**
M	**F**
RH	**R**

- Ceir gwallau ar ôl 'ei' gwrywaidd yn y brawddegau isod.

- Cywirwch y brawddegau a chofnodwch y gwallau a'r cywiriadau yn y colofnau isod.

1. Mae Gwyn Roberts yn cael ei galw yn Kyffin Williams newydd.
2. Roedd ei gwaith yn dueddol o fod yn ddarluniau o flodau, planhigion a bywyd llonydd , cyn iddo gael ei damwain.
3. Torrodd Gwyn Roberts ei bawd wrth dorri coed a bu'n rhaid iddo gael dwy lawdriniaeth.
4. Sylweddolodd Gwyn Roberts y byddai'n rhaid iddo newid ei techneg o baentio ar ôl ei llawdriniaeth.
5. Cofiodd Gwyn Roberts am ei cyllell balet a phenderfynodd arbrofi gyda phaent olew er mwyn addasu a gwella ei gwaith.

Gwall	**Cywiriad**